Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Trystan Edwards
Ysgol Garth Olwg
St Illtyd's Road
Church Village
Pontypridd
CF38 1DX

6/1/25

Annwyl Mr Trystan Edwards

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Diolch am eich cefnogaeth i drefnu ein hymweliad interim â'r ysgol. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr am eich gwaith gwella a sut rydych chi'n cefnogi athrawon.
- Siarad â disgyblion yn y gwersi a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â gwersi a theithiau dysgu ar draws yr ysgol i weld disgyblion a staff yn ymgymryd â'u gwaith.
- Arsylwi ar y cyd gydag uwch arweinwyr gan drafod yr hyn a welwyd.
- Ymgymryd â gweithgareddau craffu ar sampl o lyfrau gydag uwch arweinwyr.
- Siarad ag arweinwyr rhifedd a chymhwysedd digidol am ddarpariaeth yr ysgol i ddatblygu medrau disgyblion.
- Siarad gyda chriw o athrawon am eu gwaith yn datblygu'r medrau a gwella eu hymarfer.

**Ffocws yr ymweliad**

**I ba raddau mae'r ysgol wedi miniogi'r hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod gwell ystyriaeth o effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion?**

Roedd yn ddefnyddiol i ni drafod eich trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Roedd yn ddiddorol clywed am y trefniadau 'Cyfleoedd +' rhyngoch a phedair ysgol arall i gydweithio ar weithgareddau sicrhau ansawdd. Ymddengys bod prosesau a chyfundrefn ysgol gyfan yn eu lle sy'n sicrhau bod gweithgareddau perthnasol yn cael eu cyflawni yn unol â chalendr cytunedig. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a gweithgareddau cyrchu barnau disgyblion. Rhennir adroddiadau personol gyda staff yn dilyn gweithgareddau

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.
Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

monitro sy’n rhoi arfarniad addas ar rai agweddau o addysgu a chynllunio ac ar ansawdd yr adborth a roddir ar waith disgyblion.

Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- I ba raddau mae’r prosesau sicrhau ansawdd yn rhoi digon o ffocws ar faint o gynnydd a wna disgyblion yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a’u medrau mewn gwersi a thros amser?
- I ba raddau mae arweinwyr yn gwerthuso’r ddarpariaeth yn uniongyrchol yn ôl ei effaith ar safonau a chyflawniad disgyblion.
- I ba raddau mae adroddiadau crynodol yn dilyn gweithgareddau monitro yn adnabod prif feysydd gwella o ran addysgu ac asesu?

**I ba raddau mae arweinyddiaeth strategol ar gyfer datblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion wedi cryfhau?**

Rydym yn cydnabod bod newidiadau sylweddol wedi bod o ran uwch arweinwyr ac arweinwyr canol sydd â chyfrifoldeb am y meysydd hyn ers adeg yr arolygiad craidd a bod hyn wedi llesteirio cynnydd. Roedd yn fuddiol clywed am y cyfleoedd datblygiad proffesiynol diweddar i gefnogi staff i gynllunio ar gyfer datblygiad agweddau o lythrennedd. Mae’r ffocws ar gysoni strategaethau datblygu llafaredd a darllen ysgol gyfan yn ymddangos yn glir. Roedd yn ddiddorol clywed am sut mae’r ysgolion partner cynradd wedi cydweithio i greu nodweddion ‘di-amod’ cytunedig o ran darpariaeth rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae’n galonogol deall bod arweinwyr wedi creu gweithgorau rhifedd a digidol yn ddiweddar i ddechrau trafod strategaeth ysgol gyfan a bod rhywfaint o fapio cyfleoedd wedi digwydd o fewn meysydd dysgu a phrofiad i ddisgyblion Blwyddyn 7 a hŷn.

Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- I ba raddau mae’r cynllun mathemateg hir-dymor yn cynnig yr hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer bodloni anghenion cwricwlaidd i ddatblygu rhifedd ar draws yr ysgol?
- Pa mor fwriadus yw’r cynllunio ar gyfer cymhwyso medrau rhifedd disgyblion mewn cyd-destunau perthnasol?
- Sut y gellir cryfhau y cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau digidol cynyddol disgyblion?

Rydym yn dymuno'n dda i chi gyda'ch datblygiadau yn y dyfodol. Diolch unwaith eto am eich holl help i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6745504

Yn gywir

emEvans.

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol